**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2004 Rhif 79 (Cy.9)

# PRIFFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd Llundain - Abergwaun (A40) (Gwelliant Heol Draw) 2004

| | |
|---|---|
| *Wedi'i wneud* | *15 Ionawr 2004* |
| *Yn dod i rym* | *19 Chwefror 2004* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 10 a 12 o Ddeddf Priffyrdd 1980(**a**) a phob pŵer galluogi arall(**b**):-

1. Daw'r briffordd newydd y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn bwriadu ei hadeiladu ar hyd y llwybr a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn yn gefnffordd o'r dyddiad y daw'r Gorchymyn hwn i rym.

2. Dangosir llinell ganol y gefnffordd newydd â llinell ddu drom ar y plan a adneuwyd.

3. Bydd y darn o'r gefnffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn ac a ddangosir â llinellau rhesog bras ar y plan a adneuwyd yn peidio â bod yn gefnffordd, a chaiff ei ddosbarthu fel ffordd ddosbarthiadol, o'r dyddiad y bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn hysbysu Cyngor Sir Powys fod gefnffordd newydd ar agor i draffig trwodd.

4. Yn y Gorchymyn hwn :-

(1) Mae pob mesur o bellter wedi'i fesur ar hyd llwybr y briffordd berthnasol;

(2) ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw Cefnffordd Llundain - Abergwaun (A40);

ystyr "y gefnffordd newydd" ("*the new trunk road*") yw'r briffordd a grybwyllir yn Erthygl 1

(a) 1980 p.66.

(b) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, rhoddwyd y pwerau hyn bellach i Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â Chymru.

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2004 No. 79 (W.9)

# HIGHWAYS, WALES

## The London - Fishguard Trunk Road (A40) (Heol Draw Improvement) Order 2004

| | |
|---|---|
| *Made* | *15th January 2004* |
| *Coming into force* | *19th February 2004* |

The National Assembly for Wales makes this Order in exercise of powers conferred upon it by sections 10 and 12 of the Highways Act 1980(**a**) and of all other enabling powers(**b**):-

1. The new highway which the National Assembly for Wales proposes to construct along the route described in Schedule 1 to this Order is to become a trunk road as from the date when this Order comes into force.

2. The centre line of the new trunk road is indicated by a heavy black line on the deposited plan.

3. The length of trunk road described in Schedule 2 to this Order and shown by broad striped hatching on the deposited plan is to cease to be trunk road, and is to be classified as a classified road, as from the date on which the National Assembly for Wales notifies the County Council of Powys that the new trunk road is open for through traffic.

4. In this Order :-

(1) All measurements of distance are measured along the route of the relevant highway;

(2) "the trunk road" ("*y gefnffordd*") means the London - Fishguard Trunk Road (A40);

"the new trunk road" ("*y gefnffordd newydd*") means the highway mentioned in

(a) 1980 c.66.

(b) By virtue of S.I. 1999/672, article 2 and Schedule 1, these powers are now conferred upon the National Assembly for Wales in relation to Wales.

o'r Gorchymyn hwn;

ystyr "y plan a adneuwyd" ("*the deposited plan*") yw'r plan a rifwyd HA10/2 NAFW 4 ac a farciwyd Gorchymyn Cefnffordd Llundain - Abergwaun (A40) (Gwelliant Heol Draw) 2004 a lofnodwyd drwy awdurdod y Gweinidog dros Ddatbygu Economaidd a Thrafnidiaeth a'i adneuo yn Uned Storio ac Adfer Cofnodion (RSRU) Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Neptune Point, Ocean Way, Caerdydd.

5. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 19 Chwefror 2004 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd Llundain - Abergwaun (A40) (Gwelliant Heol Draw) 2004.

Llofnodwyd ar ran y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

15 Ionawr 2004

article 1 of this Order;

"the deposited plan" ("*y plan a adneuwyd*") means the plan numbered HA10/2 NAFW 4 and marked the London - Fishguard Trunk Road (A40) (Heol Draw Improvement) Order 2004 signed by authority of the Minister for Economic Development and Transport and deposited at the National Assembly for Wales, Record Storage and Retrieval Unit (RSRU), Neptune Point, Ocean Way, Cardiff.

5. This Order comes into force on 19th February 2004 and may be cited as the London - Fishguard Trunk Road (A40) (Heol Draw Improvement) Order 2004.

Signed on behalf of the Minister for Economic Development and Transport.

15th January 2004

*S C SHOULER*

Pennaeth yr Is-adran Gweinyddu Ffyrdd

Llywodraeth Cynulliad Cymru

Head of Roads Administration Division,

Welsh Assembly Government

## ATODLEN 1

**Llwybr y gefnffordd newydd**

Llwybr y gefnffordd newydd yw llwybr rhwng Bwlch a Chrucywel yng nghyffiniau'r eiddo a elwir Heol Draw Cottage, ger Tretŵr yn Sir Powys oddeutu 0.80 cilomedr o hyd gan ddechrau ar bwynt ar y gefnffordd bresennol oddeutu 200 metr i'r gogledd orllewin o ddiwedd y wal ar ochr de ddwyrain y fynedfa i'r eiddo a elwir Dan-y-Myarth gan barhau i gyfeiriad y de ddwyrain hyd at bwynt ar y gefnffordd bresennol sy'n cyd-ddigwydd â llinell ganol y fynedfa i gae Rhif 8248 gyferbyn â'r fynedfa i Westy Gliffaes.

## SCHEDULE 1

**Route of the new trunk Road**

The route of the new trunk road is a route between Bwlch and Crickhowell in the vicinity of the property known as Heol Draw Cottage, near Tretower in the County of Powys about 0.80 kilometres in length starting at a point on the existing trunk road about 200 metres north west of the end of the wall on the south east side of the access to the property known as Dan-y Myarth then going in a southeasterly direction to a point on the existing trunk road coincident with the centreline of the access to field No. 8248 opposite the access to the Gliffaes Hotel.

## ATODLEN 2

**Y darn o'r gefnffordd a fydd yn peidio â bod yn gefnffordd**

Y darn o'r gefnffordd a fydd yn peidio â bod yn gefnffordd yw'r darn hwnnw o'r gefnffordd a leolir rhwng pwynt oddeutu 13 metr o ddechrau'r wal/giât ar ochr de ddwyrain yr eiddo a elwir Heol Draw Cottage, ger Tretŵr, hyd at bwynt ar y gefnffordd bresennol 26 metr o ddechrau'r wal/giât ar ochr de ddwyrain yr eiddo a elwir Heol Draw Cottage, ger Tretŵr.

## SCHEDULE 2

**Length of trunk road ceasing to be trunk road**

The length of trunk road ceasing to be trunk road is that length of the trunk road situated between a point about 13 metres from the start of the wall/gate on the south east side of the property known as Heol Draw Cottage, near Tretower, to a point on the existing trunk road 26 metres from the start of the wall/gate on the south east side of the property known as Heol Draw Cottage, near Tretower.

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2004 Rhif 79 (Cy.9)

# PRIFFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd Llundain - Abergwaun (A40) (Gwelliant Heol Draw) 2004

# 2004 No. 79 (W.9)

# HIGHWAYS, WALES

The London - Fishguard Trunk Road (A40) (Heol Draw Improvement) Order 2004

©  Hawlfraint y Goron 2004

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2004

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090854-6

9 780110 908540

**£1.75**

W194/01/04 ON